

Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19

Cyd-destun a'r cefndir

Yr ysgol

Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn Sir Benfro yw Ysgol y Preseli, sy'n rhan o gonsortiw ERW. Mae 812 dysgwr ar y gofrestr, gyda 4.4 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM); 21 y cant ag anghenion dysgu ychwanegol; a 22 y cant yn cael eu hadnabod fel dysgwyr mwy abl a thalentog. Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 48.27 o fechgyn a 51.73 y cant o ferched.

Arweinwyr penodedig a'r staff addysgu

O ran yr uwch dîm rheoli, mae gan yr ysgol bump arweinydd penodedig ac 18 rheolwr canol. Yn ogystal â hynny mae gan yr ysgol 47.5 o athrawon a deg cynorthwydd addysgu.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd yr ysgol grant ychwanegol o £60,781.25 ar gyfer y flwyddyn 2018/2019.

Sut cafodd y grant ychwanegol ei ddefnyddio

Ymchwil gweithredu

Cynhaliwyd astudiaeth o'r continwmm addysgeg ar draws Cyfnodau Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 o fewn y Dyniaethau. I ddechrau bu'r ymholiad yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid o ran eu profiadau o'r continwmm o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Y nod oedd paratoi athrawon am y cwricwlwm newydd a chodi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid o'r newidiadau sydd i ddod.

Fel rhan o'r astudiaeth ffurfiwyd grŵp ffocws o ymarferwyr oedd yn cynrychioli'r pob cyfnod allweddol.

Bu'r astudiaeth yn cynnig cyfle i ddatblygu'n broffesiynol trwy ddyfnhau dealltwriaeth o'r continwmm addysgeg. Bu ffocws cryf ar ymchwilio i ddysgu proffesiynol o fewn systemau sy'n perfformio ar lefel uchel. Pwrpas yr ymchwil a'r gwaith cynllunio dilynol oedd sicrhau bod y profiadau dysgu ac addysgu yn cael effaith gynaliadwy a chadarnhaol ar deilliannau a lles disgyblion wrth iddynt drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3.

Wrth drafod y prosiect dywedodd Mrs Morris, Pennaeth Cynorthwyol yr ysgol:

'Dengys gwaith ymchwil MacKinnon a Lachlan mewn erthygl a gyhoeddwyd sef The move to student-centric learning pwysigrwydd metawybyddiaeth. Rhaid felly ystyried y pwll dysgu fel petai wrth gynllunio tasgau sy'n caniatáu dysgu ac addysgu metawybyddol cyfredol sy'n addas i bwrpas.'

Dysgu ac addysgu – yr effaith ar arfer ystafell ddosbarth ac addysgeg

Roedd datblygu metawybyddiaeth wrth wraidd y gwaith, gyda'r dysgwyr yn cael eu hannog i fod yn annibynnol ac yn fentrus.

Bu gwaith cynllunio dwys gyda'r ffocws ar yr egwyddorion addysgeg a'r meddylfryd o dwf wrth gynllunio a darparu tasgau rhyngweithiol, heriol ac arbrolfol.

Roedd cynllunio tasgau awyr agored yn flaenoriaeth i'r grŵp. Bu adfyfrio ar weithgareddau awyr agored yn seiliedig ar waith Glyn J Thomas, *Pedagogical frameworks in outdoor and environmental education* yn ogystal â gwaith Lars Qvortrup *Visible learning and its enemies – the missing link* sy'n amlygu'r angen i athrawon ddewis ymyriadau mewn perthynas â sefyllfa benodol wrth gynllunio ac addysgu.

O ran y cyfnod cynllunio olaf, ymchwil cynradd oedd yn ffurfio'r gwaith ymholi yn bennaf. Roedd derbyn ymatebion rhanddeiliaid yn allweddol ac felly penderfynwyd cynnal holiadur, cyfres o gyfweiliadau ac arsylwi gwersi.

Roedd yr ymchwil hon yn darparu darlun llawn o effaith y cyd-gynllunio ar y dysgwyr yn ogystal â'r effaith ar ddatblygiad proffesiynol athrawon wrth iddyn nhw baratoi ar gyfer cyflwyno cwricwlwm newydd yr ysgol yn 2022.

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Cymerwyd camau i sicrhau bod y prosiect yn cael effaith ar draws yr ysgol. Darparwyd mewnwelediad i bersbectif athrawon trwy gyfres o gyfweiliadau a thrafodaethau ffocws.

Dengys yr ail gylchred gydnabyddiaeth yr athrawon o'r angen am gontinwrm addysgeg o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3 neu hyd yn oed Cyfnod Allweddol 4.

Ychwanegodd Mrs Morris:

'Roedd y gylchred nesaf yn gyfle i ymchwilio i'r newid ym meddylfryd yr athrawon hynny bu'n cydgynllunio, a thrwy hynny, bu'n cyfoethogi eu dealltwriaeth o'r egwyddorion addysgeg, y camau cynnydd a'r cyfrifoldebau trawsgwricwlaidd.'

O ran ymateb athrawon i'r prosiect, dywedodd Mrs Morris fod tebygrwydd yn y sectorau cynradd ac uwchradd.

'Bu canmoliaeth fawr i'r cyfle i fynd i'r afael â'r hyn a olygir gan y term addysgeg a'r angen am gynllunio ar gyfer addysgeg sy'n canolbwyntio ar y dysgwr.'

Effaith y grant ar ddysgwyr

Bu cydnabyddiaeth gref o'r ffocws ar ddysgwyr yn perchnogi eu cynnydd wrth gynllunio cyfleoedd iddyn nhw ddysgu trwy wneud camgymeriadau a phenderfynu ar y cam nesaf i ddatrys yr heriau amrywiol. Gwelwyd hyn yn amlwg yn ystod arsylwad gwrs Dyniaethau Blwyddyn 6 lle bu'r dysgwyr yn awyddus i ddarganfod, ymchwilio, i gydweithio ac i weithio'n annibynnol heb gymorth yr athrawes.

Dangosodd y canlyniadau fod y gwaith a gynlluniwyd a'r addysgeg ar lawr yr ystafell ddosbarth yn herio'r dysgwyr. Roedd 100% o ymatebwyr o'r farn eu bod wedi ennyn diddordeb yn y pwnc a'u bod wedi adeiladu ar wybodaeth flaenorol. Y bwriad fydd i fesur llwyddiant y prosiect eto er mwyn ystyried ymatebion y dysgwyr ar ôl iddyn nhw drosglwyddo i Gyfnod Allweddol 3.

Wrth ystyried llais y dysgwr, dengys yr angen i ddarparu mwy o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd, gyda ffocws penodol ar sgiliau TGCh. Roedd cynnwys ymweliadau allanol a sicrhau cyfleoedd i addysgu tu allan i'r ystafell ddosbarth hefyd yn flaenoriaethau wrth gynllunio'r camau nesaf yn y continwmm addysgeg.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol y bydd yr ysgol yn eu gweithredu yn yr ysgol

Amlygwyd y manteision canlynol i'r athrawon hynny bu'n rhan o'r project continwmm addysgeg:

1. Mae'r athrawon wedi sicrhau bod ffocws y cynllunio ar y dysgwr, gan roi sylw i'r hyn y mae pob dysgwr yn ei ddysgu. Wrth symud ymlaen, mae'n rhaid rhannu'r meddylfryd yma gyda gweddill yr ysgol ac ysgolion y clwstwr.
2. Bu cyfleoedd niferus i ddatblygu'n broffesiynol trwy gydweithio, cyfoethogi dealltwriaeth o addysgeg a'r continwmm addysgeg.
3. Roedd gwaith tîm llwyddiannus yn greiddiol i'r project. Bu cydweithio agos gyda phawb yn rhannu'r un weledigaeth.
4. Bydd defnyddio ffurfiau newydd i gydweithio a rhannu gwybodaeth yn allweddol wrth symud ymlaen. Nid oes modd cydgyllunio heb rannu arfer da ac heriau.
5. Bydd modelu a datblygu arweinyddiaeth yn y Dyniaethau yn flaenoriaeth wrth symud ymlaen. Mae'r grŵp hwn o athrawon wedi arwain y ffordd i weddill staff yr ysgol ac ysgolion y clwstwr, ac yn parhau i wneud hynny.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Mae'r prosiect hwn yn parhau i fesur gwir effaith yr ymchwil gweithredu. Mae angen neilltuo amser digonol i athrawon fedru cwrdd, ymchwilio, cydgynllunio a myfyrio ar lefel ysgol ac o bosib ar lefel clwstwr. Mae'r ysgol wedi mynd ati i sicrhau bod pob sesiwn hyfforddiant yn gyfle i athrawon gydweithio a chydgyllunio yn ystod y flwyddyn academaidd.

Yn yr un modd, mae'r ysgol wedi llwyddo i ddarparu un wers ymchwil gweithredu ar amserlen pob aelod o staff dysgu. Mae'r wers yn gyfle i athrawon wneud ymchwil gweithredu, arsylwi ei gilydd, cynnal grwpiau ffocws a dadansoddi canlyniadau ansoddol a meintiol wrth symud y gwaith cynllunio ymlaen.

Y camau nesaf

Mae'r ysgol wedi defnyddio'r mewnwelediadau uchod wrth lunio rhaglen hyfforddiant staff cyfan yn y flwyddyn 2019/20. Ymhlith blaenoriaethau'r ysgol mae ffurfio cymunedau dysgu proffesiynol ar gyfer pob maes dysgu a phrofiad i adeiladu ar lwyddiant y cynllunio ar lefel clwstwr.

Mae darparu cyfleoedd i athrawon ymchwilio a defnyddio gwybodaeth ddamcaniaethol fel sail i'w cynllunio yn flaenoriaeth i bob cymuned ddysgu broffesiynol. Roedd ffocws ar addysgeg, llais y dysgwr a chyfraniad rhanddeiliaid i'r gwaith cynllunio yn nhymor yr Hydref cyn rhannu eu canfyddiadau gyda chydweithwyr o fewn y clwstwr.

Cyfnod o arbrofi a threialu fydd yn dod nesaf, gyda'r cymunedau dysgu proffesiynol yn rhoi syniadau a chynlluniau ar waith. Bydd hwn hefyd yn gyfle i fireinio'r cynllunio ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.